

Sul Un Byd

Darllen: Effesiaid 2:14–15

Ydych chi'n cofio'r dydd y dymchwelwyd Mur Berlin? Diwrnod i'w gofio oedd hwnnw. Mae dau ddarlun gwrthgyferbyniol yn dod i'r meddwl. Y darlun cyntaf ydi'r un o ŵr ifanc ar ei liniau gyda'i forthwyl a'i gŷn yn morthwyllo darnau bychain o'r concriid. Yr hyn oedd yn mynd trwy fy meddwl oedd faint o amser a gymerai'r gŵr hwn i ddymchwel y mur i gyd. Oes go dda rwy'n siŵr. O dro i dro, byddai'r cŷn yn bownsio'n ôl oddi ar y concriid caled, a chriw o bobl yn cymell y dyn i ddal ati. A'r ail ddarlun? Nid unigolyn y tro hwn, ond criw o ddynion wrthi efo'u peiriannau yn dymchwel darnau enfawr o goncriid oedd wedi'i orchuddio â phob math o graffiti. Roedd y rhain yn cael gwell hwyl o lawer, ac roedd darnau helaeth o'r mur yn diflannu o flaen llygaid y dorf. Mwy o glapio dwylo y tro hwn. Diolch i gydweithio'r gweithwyr a'r peiriannau, dymchwelwyd y mur mewn byr amser.

Beth ydi'r ysfa i godi muriau? Roedd nifer o groesau wedi'u gosod ar y mur, a phob un yn dyst i farwolaeth rhywun oedd wedi marw wrth geisio dianc dros y mur i ryddid. Un gair oedd wedi'i sgwennu ar y croesau hyn - *Unbekannt*, sef 'Anhysbys'. Cymaint o fywydau wedi'u colli am fod mur wedi ei godi i rwystro pobl rhag mynd o'r dwyrain i'r gorllewin ac o'r gorllewin i'r dwyrain. Rydyn ni'n amgylchynu'n bywydau â muriau o bob math, muriau amheuaeth ac ofn, muriau atgasedd. Mor ofalus ydyn ni pwy sy'n cael mynediad i'n tiriogaeth ni. Mae'n rhaid i bobl brofi eu bod yn hollol ddiogel, yn ddiddrwg, yn barod i feddwl yn yr un ffordd â ni a chyfaddawdu â'n gofynion ni cyn y cânt fynediad. Codwn y muriau hyn i'n cadw'n ddiogel rhag unrhyw fath o berygl i'n cyfforddusrwydd. Ond ai dyna mae'r muriau yn ei wneud? Neu a ydyn nhw'n ein caethiwo a'n cyfyngu? Ym marn awdurdodau Dwyrain yr Almaen, roedd y Mur yn gwarchod eu pobl rhag ymyrraeth o'r Gorllewin. Ond y gwir amdani hefyd oedd bod y Mur yn rhwystro'r bobl hyn rhag gadael.

Daeth Iesu i'r byd i roi bywyd llawn i ni; 'Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder' (Ioan 10:10). Sut mae cael mynediad i'r bywyd hwn? Un ffordd yw chwalu ein muriau personol ac agor drysau. Nid trwy osod cloeon a bariau y mae darganfod y bywyd cyflawn. O dro i dro, mae Duw'n ddigon hapus i'n gweld fel yr unigolyn hwnnw efo'i gŷn a'i forthwyl yn morthwyllo'n hamddenol ar furiau ein diogelwch; ond ar adegau eraill mae'n awyddus i ni fynd ati efo jac codi baw i gael gwared â thalpiauw mawr sy'n ein rhwystro rhag cofleidio'r bywyd cyflawn.

Y perygl efo'r muriau hyn ydi y byddwn yn y diwedd yn codi carchar i ni'n hunain, ac ni fydd gynnon ni'r awydd na'r nerth i ymdrechu i ddod yn rhydd. Bryd hynny, bydd popeth yn cau'n dyn amdanom heb obaith i ni weld yr haul na chlywed cân gobaith ac adfywiad.

Myfyrdod pellach:

Pa furiau ydych chi'n eu codi o amgylch eich bywyd personol chi?

Beth am y muriau y mae'r Eglwys yn eu codi? Rhestrwch nhw.